**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Rhagfyr 2008**

## ADOLYGIAD CYFANSODDOL

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I gynnig argymhellion ar gyfer parhad y Panel Gweithredol a'r ffurfiad o Bwyllgor Archwilio fel canlyniad o'r adolygiad cyfansoddol.

### Cyflwyniad

**2.** Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd ag adolygiad cyfansoddol mewn ymateb i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru (ffynonellau: Adolygiad o Drefniadau Craffu: Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 06/08 a Chraffu ac Ymgysylltu Aelodau mewn Awdurdodau Tân ac Achub – arfer da Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru (06/08). Fe dderbyniodd, ac fe ystyriodd yr Awdurdod y dogfennau ffynhonnell yma yn ei gyfarfod blynyddol a chyfarwyddo adolygiad.

**3.** Roedd diben yr adolygiad cyfansoddol yn driphlyg:

- **Ystyried argymhellion swyddfa Archwilio Cymru yn fanwl**
- **Ystyried yr angen i wahanu swyddogaethau (gweithredol ac anweithredol) a'r angen am well atebolrwydd o fewn y cyfansoddiad**

- **Y sgôp am well ymrwymiad aelodau etholedig ar draws cyfanswm aelodaeth yr awdurdod**

**4.** Gwnaed cyflwyniad ar argymhellion dros dro'r adolygiad gan y clerc yn y cyfarfod diwethaf. Penderfynodd yr awdurdod:
**Gytuno fod y Clerc yn cyflwyno argymhellion llawn o'r opsiynau i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr, gan ymateb i'r cyngor a roddwyd.**

**5. Canlyniadau'r Adolygiad Cyfansoddol**

Mae'r argymhellion sy'n dilyn, yn seiliedig ar y cyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod diwethaf, yn cyflwyno dau opsiwn i ddewis rhyngddynt ar gyfer aelodau o'r Panel Gweithredol ac aelodaeth arfaethedig a chylch gorchwyl Pwyllgor Archwilio.

Rhaid i'r Awdurdod gyfeirio'r argymhellion a chyflwyno'r newidiadau cyfansoddol mabwysiedig o flwyddyn ddinesig 2009/10.

**6. Argymhellion**

**Panel Gweithredol**

1. Fod y Panel Gweithredol yn cael ei gadw a'i gylch gorchwyl yn cael ei ail fabwysiadu;
2. fod aelodaeth y Panel Gweithredol yn cynnwys un ai (1) 2 aelod etholedig wedi eu henwebu o bob awdurdod cyfansoddol a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod (14 aelod) neu
   (2) 2 aelod etholedig wedi eu henwebu o bob awdurdod cyfansoddol (gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd);
3. Nad oes rhaid i'r Panel Gweithredol fod yn gytbwys yn wleidyddol oni bai o dan gyfarwyddyd yr Awdurdod Tân;

**Pwyllgor Archwilio**

4. Fod Pwyllgor Archwilio yn cael ei apwyntio i fod yn effeithiol o flwyddyn ddinesig 2009/10;

5. Fod aelodaeth oy Pwyllgor Archwilio yn cynnwys yr holl aelodau anweithredol;

6. Fod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn cael eu hapwyntio o wahanol awdurdodau cyfansoddol yn niddordeb cymunedau Gogledd Cymru;

7. Fod gan y Pwyllgor y brif swydd o archwilio a chraffu llywodraethiad, archwilio a chraffu rheoli ariannol ac adnoddau, archwilio a chraffu rheoli risg a sicrwydd ac archwilio a chraffu perfformiad;

8. Fod y pwyllgor yn tybio'r swyddi cyfansoddol a chyfrifoldebau gorolwg a chraffu;

9. Fod gan y Pwyllgor raglen waith rhagddo yn unol â'r gylch gorchwyl a chylch adrodd yr Awdurdod (e.e. y gylchred gyllideb, y gylchred cynllun gwella);

10. Fod y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf dwywaith pob blwyddyn ddinesig;

11. Fod gan y Pwyllgor y gallu i sefydlu gweithgorau i ymgymryd ag adolygiadau a'r disgresiwn i gyd-ethol aelodau Gweithredol gydag arbenigedd perthnasol ar y grwpiau hyn; a

12. Bod y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Clerc yn asesu anghenion adnoddau'r Pwyllgor Archwilio.

## 7. Atodiadau

1. Sleidiau cyflwyno o'r pwyllgor blaenorol (ynghlwm i gofnodion

y cyfarfod blaenorol).

2. Cylch Gorchwyl y Panel Gweithredol.
3. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio arfaethedig.

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**CYLCH GWAITH Y PANEL GWEITHREDOL**

## 1. Aelodaeth

**1.1** Bydd y Panel Gweithredol yn cynnwys 14 o aelodau fel a ganlyn:

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod a dau aelod a wahoddir o blith cynrychiolwyr y chwe awdurdod cyfansoddol.

## 2. Cylch Gwaith

**2.1** Bydd y Panel, yn ad hoc, yn cyfarfod i ymgymryd â swyddogaethau a ddirprwyir iddo gan yr Awdurdod, e.e. wrth benodi'r Prif Swyddog Tân ac Uwch Swyddogion Tân eraill ac ymdrin â'r materion disgyblaethol sy'n ymwneud â'r swyddi hyn a swyddi eraill. Bydd y Panel yn ymdrin â materion cyfansoddiadol a materion eraill y mae'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn eu hystyried yn addas i'w cyfeirio i'r Panel. Bydd y materion eraill a fydd yn codi o dro i dro nad ydynt yn rhai brys ond sydd fodd bynnag yn rhai i'w hystyried gan banel bychan o aelodau'n cael eu trin gan y Panel ac yna'n cael eu cyflwyno i'w hargymell i gyfarfod llawn o'r Awdurdod. Ceisir cael cymeradwyaeth y Cadeirydd cyn galw unrhyw gyfarfod.

**2.2** Bydd y Rheolau Sefydlog ynghylch llywio cyfarfod o'r Awdurdod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd y Panel Gweithredol.

**2.3** Bydd y **Panel Gweithredol** ar ran yr Awdurdod yn:

i. Bod yn Banel Penodi wrth benodi'r Prif Swyddog Tân;
ii. Bod yn banel priodol i wrando ar gamau disgyblu a ddygir yn erbyn y Prif Swyddog Tân;
iii. Ymdrin â rhai materion pensiwn yn ymwneud â swydd y Prif Swyddog Tân;
iv. Bod yn Banel Penodi wrth benodi'r Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol;
v. Bod yn Banel Penodi wrth benodi'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael);
vi. Gwneud argymhellion, fel y cyfyd yr angen, ynghylch penodi (a) Clerc i'r Awdurdod a (b) Trysorydd i'r Awdurdod;
vii. Bod yn banel apêl fel a nodir yng ngweithdrefnau'r awdurdod ar ddisgyblu, galluogrwydd a chwyn;
viii. Ar ran yr Awdurdod, defnyddio pwerau dewisol dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru);
ix. Ar ran yr Awdurdod, defnyddio pwerau dewisol dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

x. Ar ran yr Awdurdod, ac os oes angen, penderfynu a/neu wneud argymhellion ar faterion yn ymwneud â phersonél, wedi ymgynghori â'r Cadeirydd;
xi. Ymdrin ag unrhyw bolisi a/neu fater cyfansoddiadol ac unrhyw fater brys arall fel y barno'r Prif Swyddog Tân/Clerc/Trysorydd yn ddoeth, wedi ymgynghori o flaen llaw â'r Cadeirydd.

**2.4** Hefyd, bydd y Panel yn cyflawni swyddogaethau'r awdurdod dan adrannau 3 i 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 gan gynnwys:

i. goruchwylio a monitro cydymffurfiad yr awdurdod â'r gofynion gwerth gorau sydd yn Neddf 1999;
ii. goruchwylio a chymeradwyo'r adolygiadau gwerth gorau;
iii. goruchwylio a chymeradwyo cynnwys y cynllun perfformiad gwerth gorau;
iv. monitro perfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion perfformiad gwerth gorau a dangosyddion perfformiad lleol.

**2.5** Yn ychwanegol, bydd y Panel Gweithredol yn gweithredu fel pwyllgor archwilio'r Awdurdod Tân yn unol â chanllaw CIPFA "Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities". Bydd hyn yn cynnwys cymeradwyo y strategaeth archwilio fewnol, y rhaglen flynyddol o archwilio mewnol ac allanol a'r adroddiad archwilio blynyddol.

**2.6** Yn ychwanegol, bydd y Panel Gweithredol, ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, yn cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon blynyddol yr Awdurdod a chydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth anfonir i'r Archwilydd Allanol.

**PWYLLGOR ARCHWILIO: CYLCH GORCHWYL DRAFFT**

Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol dros y canlynol (ac yn cael ei ddirprwyo'n unol â hynny):

1. **Llywodraethiad**

   (a) Goruchwylio cynhyrchiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o Ddatganiad Llywodraethiad blynyddol ac argymell ei fabwysiad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

   (b) Cynnal cynhyrchiad o gyfansoddiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn enwedig parthed rheolau caffael cytundeb a rheolau caffael ariannol.

   (c) Adolygu unrhyw fater gyfeirir ato gan y Prif Swyddog Tân, S. 151 Swyddog neu Glerc, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Panel Gweithredol.

2. **Ariannol, Adnoddau a Rheolaeth a Sicrwydd Cyffredinol**

   Bydd y Pwyllgor yn:

   (a) Cymeradwyo Rhaglen Waith Flynyddol Archwiliad Mewnol;

   (b) Ystyried adroddiadau'r Archwiliad Mewnol;

   (c) Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol;

   (d) Apwyntio Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol ac effeithlon;

   (e) Adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol;

   (f) Ystyried Llythyr Rheoli Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru;

   (g) Ystyried y Datganiadau Ariannol Blynyddol a darparu unrhyw sylwadau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;

   (h) Darparu adborth i Swyddfa Archwilio Cymru ar berfformiad yr archwiliad allanol.

3. **Panel Rheoli Risg**

   Bydd y Pwyllgor yn:

   (a) Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg corfforaethol a llywodraethiad corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;

(b) Monitro effeithiolrwydd yr amgylchedd reoli fewnol.

4. **Perfformiad**

Bydd y Pwyllgor yn:

(a) Adolygu effeithiolrwydd ei reolaeth perfformio;

(b) Adolygu cyflawniad nodau'r Cynllun Strategol;

(c) Adolygu cyflawniad dangosyddion perfformiad gytunwyd arnynt;
ac yn

(d) Gwneud sylwadau'n gyffredinol ac yn gwneud argymhellion i Banel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Grŵp Gweithredol ar berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5. **Gorolwg a Chraffu**

Gall y Pwyllgor:

(a) Adolygu effeithiolrwydd polisïau a strategaethau gymeradwywyd gan y Panel Gweithredol;

(b) Adolygu effeithiolrwydd penderfyniadau wnaed gan y Panel Gweithredol;

(c) Adolygu perfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyffredinol;

(d) Gwneud adroddiadau neu argymhellion i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Panel Gweithredol neu'r Grŵp Gweithredol fel mae'n ystyried yn gymwys;

(e) Gofyn i'r Clerc fod mater yn cael ei ychwanegu i unrhyw agenda i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Panel Gweithredol neu Grŵp Gweithredol cyn belled bod o leiaf 10 diwrnod clir o rybudd yn cael ei roi o'r fath rybudd. Cymerir pob cam rhesymol i ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar y mater yn y cyfarfod, ond lle nad yw hyn yn bosib, rhoddir adroddiad llafar;

(f) Rhoddir yr hawl i wneud cais o dan baragraff (d) i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio neu unrhyw dri Aelod o'r Pwyllgor;

(g) lle mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried fod mater yn gofyn am ystyriaeth frys gan unai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu'r Panel Gweithredol, yna bydd gan y Pwyllgor Archwilio'r pŵer i ofyn am gyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw yn unol â rheol (d) uchod.